Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwr 1

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr 5

Gwybodaeth Weinyddol 6

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 7

Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau 8

Datganiad o newid yn yr Asedau Clir i'w priodoli i Gyfranddalwyr 8

Mantolen 9

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol 10

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Strwythur

Cynllun buddsoddi cyfunol yw Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru (Corff y Cynrychiolwyr) dan gynllun a gymeradwywyd gan y Comisiwn Elusennau ar 11 Rhagfyr 2008, er mwyn buddsoddi arian sy'n perthyn i unrhyw elusen y mae Corff y Cynrychiolwyr yn Ymddiriedolwr arni neu sydd o fudd i elusen o'r fath.

Corff y Cynrychiolwyr yw ymddiriedolwr y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin, ac mae wedi penodi ei Bwyllgor Buddsoddi i'w goruchwylio. Bydd y Pwyllgor Buddsoddi yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn derbyn adroddiadau chwarterol oddi wrth Reolwr y Gronfa, ac yn monitro strategaeth y Gronfa a'i pherfformiad.

Rheolir y Gronfa gan Reolwr y Gronfa (Newton Investment Management) yn unol â Chytundeb Rheoli Buddsoddiadau, ac fe'i gweinyddir gan staff Corff y Cynrychiolwyr.

Disgrifiad o'r Gronfa

Mae'r Gronfa'n addas at fuddsoddi gan blwyfi pan ddymunir twf hirdymor mewn cyfalaf, lefel resymol o incwm a chynnydd mewn incwm. Nid yw'n addas i ddal arian y mae'n debyg y bydd ei angen yn y dyfodol agos.

Gellir buddsoddi cronfeydd plwyfol ac ymddiriedolaethau cymynroddion a rhoddion yn y Gronfa.

Rhennir yr ymddiriedolaethau a ddelir yn y Gronfa yn ymddiriedolaethau gwariadwy ac ymddiriedolaethau anwariadwy. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe grynhoir incwm ymddiriedolaethau gwariadwy ac yna naill ai ei ail-fuddsoddi neu ei dalu i'r plwyf. Fel rheol, dosberthir incwm ymddiriedolaethau anwariadwy yn chwarterol.

Adroddiad Buddsoddi

Amcanion Buddsoddi

Ystyrir y Gronfa yn gyfrwng buddsoddi tymor-canol i hirdymor i ymddiriedolaethau a chronfeydd plwyfol, a'i nod a'i diben yw :

- cydbwyso lefelau cynaliadwy o incwm â thwf mewn cyfalaf;
- cael y cyfanswm derbyniadau uchaf posibl heb risg dianghenraid;
- gweithredu o fewn cyfyngiadau Polisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru..

Meincnod Perfformiad

Tan 2015, mesurwyd perfformiad y Gronfa yn erbyn Mynegai Cronfa Pob Elusen y WM. Gan fod y gwasanaeth hwn wedi peidio â bod ar ôl chwarter cyntaf 2016, nid yw'r meincnod hwn bellach wedi bod ar gael.

Ni lwyddwyd i ddod o hyd i ddarparwr newydd tan yn ddiweddar ac felly nid yw'r cyfanswm enillion ar gyfer y gronfa am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr ar gael ar gyfer yr adroddiad hwn eleni.

Serch hynny, ers blynyddoedd mae Rheolwr y Gronfa wedi darparu meincnod cyfansawdd y gellir mesur perfformiad y Gronfa yn ei erbyn. Mae'r meincnod cyfansawdd hwn yn ymgorffori perfformiad prif fynegeion yr asedau y buddsoddwyd y portffolio ynddo, ac yn canolbwyntio ar allu rheolwr y gronfa i uwchberfformio o fewn yr amrywiol ddosbarthiadau o asedau. Mae'r meincnod cyfansawdd wedi ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

Polisi Buddsoddi Moesegol

Buddsoddir y Gronfa yn unol â Pholisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru, a mabwysiadwyd fersiwn ddiwygiedig ohono gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Polisi'n gwahardd buddsoddi mewn cwmnïau y mae a wnelont ag arfau, gweithgareddau benthyca rheibus a phornograffi, yn cyfyngu ar fuddsoddi mewn cwmnïau y mae a wnelont â gamblo, alcohol a thybaco, glo thermol a thardywod ac yn ceisio hyrwyddo graddfeydd da o lywodraethu corfforaethol a chyfrifoldeb cymdeithasol. Ceir copi llawn o'r Polisi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, ac y mae hefyd ar wefan yr Eglwys, www.eglwysyngnghymru.org.uk.

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Rheolwyr Buddsoddi

Penodwyd Newton Investment Management (Newton) i reoli'r gronfa fuddsoddi yn y gyfnewidfa stoc o fis Ionawr 2010 ar fandad Aml-Asedau Byd-Eang.

Asedau

Dyma amrediad y dosbarthiadau asedau am 2016:

Dosbarth Asedau	Ecwitïau'r DU	Ecwitïau Tramor	Llog sefydlog	Eiddo	Arian
Amrediad Dosbarthu	15-35%	10-55%	15-35%	0-15%	0-25%
Dyraniad ar 31/12/16	33%	40%	17%	2%	8%

Roedd y Gronfa wedi'i buddsoddi yn y sectorau ecwitïau canlynol ar 31 Rhagfyr 2016:

Gwasanaethau Defnyddwyr	11.9%	Telathrebu	5.7%
Technoleg	11.2%	Nwyddau Defnyddwyr	4.5%
Ariannol	9.6%	Olew a Nwy	3.1%
Gofal Iechyd	8.1%	Diwydiannau	3.0%
Cyfleustodau	6.1%	Deunyddiau Sylfaenol	1.3%

Y deg daliad uchaf yn y Gronfa ar 31 Rhagfyr 2016 oedd:

Stoc	Gwerth £000	% o'r Gronfa
3.25% Stoc Trysorlys y DU	1,752	3.5
Royal Dutch Shell Plc	1,543	3.1
4.25% Stoc Trysorlys y DU 2036	1,049	2.1
5% Stoc Trysorlys y DU 2025	984	2.0
Greencoat UK Wind Plc	914	1.8
Applied Materials Inc	894	1.8
Infineon Technologies AG	882	1.8
International Public Partnership Ltd	868	1.8
6% Stoc Trysorlys y DU 2028	833	1.7
Vodafone Group Plc	819	1.7

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwr

Cynhyrchodd y Gronfa gyfanswm derbyniadau o 16.5% yn 2016 o gymharu ag enillion meincnod cyfansawdd o 18.6% a chwyddiant o 2.5%.

Darparodd ecwitïau tramor 27.6% o gymharu â'r elw meincnod o 30.1%, a chafwyd enillion cadarnhaol gan yr holl ddosbarthiadau asedau eraill, gydag eiddo yn perfformio'n sylweddol uwch na'r elw meincnod o 2.2%, yn rhoi elw o 11.3%.

Er gwaethaf perfformio o dan y meincnod, perfformiodd y gronfa'n arbennig o dda yn ystod 2016, a thros y cyfnod o 5 mlynedd hyd at 31 Rhagfyr 2016, mae'r Gronfa wedi perfformio'n uwch na'r meincnod cyfansawdd gan ddarparu cyfanswm enillion blynyddol o 11.2%.

Cyfanswm y derbyniadau ar y Dosbarthiadau Asedau yn 2016

Dosbarthiad Asedau	Cronfa %	Meincnod Cyfansawdd %
Ecwitïau'r DU	10.7	16.8
Bondiau Llywodraeth y DU	12.8	10.1
Bondiau Corfforaethol y DU	10.0	10.6
Ecwitïau Tramor	27.6	30.1
Arian	0.4	0.5
Eiddo	11.3	2.2
Amgen	NA	5.6
Cyfanswm y Gronfa	**16.5**	**18.6**

Perfformiad

Cyfanswm derbyniadau blynyddol hyd at 31 Rhagfyr	2016 %	2015 %	2014 %	3 blynedd %	5 blynedd %
Cronfa	16.5	1.6	11.4	9.7	11.2
Meincnod Cyfansawdd	18.6	3.3	9.9	10.4	10.8
Mynegai Prisiau Adwerthu	2.5	1.2	1.6	1.8	2.2

Arolwg o'r Farchnad yn 2016

Ar ôl ymryddhau o ansicrwydd y bleidlais Brexit llwyddodd yr economi i gofnodi twf o 2% yn 2016, gan olygu mai hi oedd yr economi ddatblygedig a oedd yn tyfu gyflymaf yn y byd.

Ar ôl syrthio i'r gyfradd isaf ers 31 mlynedd yn erbyn y ddoler ym mis Hydref, sefydlogodd y bunt erbyn diwedd y flwyddyn. Serch hynny, effeithiodd y dibrisiant llym ar chwyddiant yn y DU gyda'r Mynegai Prisiau Adwerthu'n codi i 2.5% ym mis Rhagfyr, yr uchaf ers 2013.

Er gwaethaf ansicrwydd polisïau economaidd yr Arlywydd Donald Trump, ystyriodd Cronfa Wrth Gefn ffederal UDA y rhagolygon ar gyfer economi UDA, yn nhermau chwyddiant a chyflogaeth ei bod yn ddigon cryf i godi cyfraddau llog 0.25% ym mis Rhagfyr, sef yr ail gynnydd yn unig mewn degawd.

Parhaodd economi'r Ewro i ddangos adferiad, gyda diweithdra'n syrthio i 9.6% ym mis Rhagfyr (yr isaf ers Mai 2009) a thwf Cynnyrch Domestig Gros (GDP) yn codi i 0.5%, o 0.4% yn y chwarter blaenorol.

Cododd prisiau olew cymaint â 10% i $52 y faril ddiwedd Tachwedd ar ôl i OPEC gytuno i leihau cynhyrchiant am y tro cyntaf ers 2008, er mwyn lleihau'r gor-gynhyrchiant byd-eang a chodi prisiau.

Daliodd y marchnadoedd ecwitïau eu tir wrth i fondiau llywodraethau syrthio ac i'r farchnad brisio gan ddisgwyl rhagor o wariant ariannol a chyfraddau llog yn codi. Yn yr ecwitïau, roedd y troadau cylchol yn sylweddol, gyda'r sectorau mwy economaidd sensitif, gan gynnwys y sector ariannol, olew a nwy a deunyddiau sylfaenol yn gwneud yn dda.

Dylanwadodd yr hyder hwn ar y marchnadoedd incwm sefydlog. Yn y DU, adroddodd Mynegai Holl Stociau Llywodraethau'r (stociau gilt) Ffederasiwn Cynghorwyr Trethi (FTA) dderbyniadau o 3.4% dros y chwarter olaf, gan godi'r adenillion ar gyfer 2016 i 10.1%. Darparodd Mynegai Bondiau Llywodraethau Byd-eang JPM (ac eithrio'r DU) enillion sterling ar gyfer y pedwerydd chwarter o -3.6%, i

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwr

gyflawni enillion 12 mis ar gyfanswm anhygoel o +22%. Colli tir oedd hanes bondiau corfforaethol yn y chwarter olaf hefyd, gyda'r Mynegai BofA ML Sterling Non-Gilts yn adrodd enillion o -2.8% (10.6% dros y flwyddyn).

Strategaeth Fuddsoddi

Buddsoddir y portffolio (ac eithrio cronfeydd eiddo) mewn daliadau uniongyrchol, yn ecwitïau a bondiau fel ei gilydd, er mwyn cydymffurfio â Pholisi Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru. Er mwyn cynnal proffil risg priodol y portffolio, mae'r daliadau'n amrywio o ran sector, diwydiant, daearyddiaeth ac arian cyfred. Yn unol â chyngor y Comisiwn Elusennau, nid oes yr un daliad (ac eithrio ym mondiau llywodraeth y DU) sy'n werth mwy na 5% o'r portffolio.

Rhagolwg

Mae Rheolwr y Gronfa'n parhau yn bwyllog, yn sgil yr ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd sydd ar y gorwel, ond yn barod i achub ar gyfleoedd os bydd cyfnodau anwadal yn codi.

Mae chwyddiant yn debygol o barhau ar i fyny yn y misoedd sydd i ddod, a gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar elw o fondiau. Fodd bynnag, dylai'r chwyddiant uwch fod yn fanteisiol i lawer o'r daliadau amgen sydd â llif arian cysylltiedig â chwyddiant.

Yn erbyn y gefnlen ansicr hon, ymddengys yn bwysicach fyth ein bod yn cadw persbectif ar rymoedd strwythurol newid sy'n llywio risgiau a chyfleoedd buddsoddwyr, a gwahaniaethu yn erbyn enillwyr a chollwyr mewn byd sy'n symud yn gyflym.

Rhybudd o Risg

Gall gwerth y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin a'r incwm sy'n deillio ohoni ddisgyn yn ogystal â chodi, ac nid oes unrhyw warant. Golyga hyn ei bod yn bosibl na chaiff plwyfi y swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol yn ôl. Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn warant o enillion yn y dyfodol. Bydd gwerth y cyfranddaliadau yn y Gronfa yn adlewyrchu'r newidiadau ym mhris dosbarthiadau'r asedau y buddsoddir y Gronfa ynddynt a'r symudiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor

Ystadegau'r Gronfa

Dyddiad prisio	Cyfran-ddaliadau yn y Dyroddiad	Gwerth Clir yr Ased * (ceiniog y cyfranddaliad)	Difidend Blynyddol (ceiniog y cyfranddaliad)	Llog	Cyfanswm Gwerth y Gronfa £000
1 Ionawr 2009	25,962,753	100.00			
31 Rhagfyr 2009	27,008,033	118.49	3.61	3.05%	£32,002
31 Rhagfyr 2010	26,940,059	124.41	4.02	3.23%	£33,517
31 Rhagfyr 2011	26,908,705	118.32	4.47	3.78%	£31,839
31 Rhagfyr 2012	27,224,411	125.54	4.30	3.43%	£34,177
31 Rhagfyr 2013	27,509,681	141.72	4.09	2.89%	£38,986
31 Rhagfyr 2014	28,824,005	152.75	4.16	2.72%	£44,030
31 Rhagfyr 2015	29,033,039	150.36	4.35	2.89%	£43,654
31 Rhagfyr 2016	29,207,207	169.91	4.24	2.49%	£49,627

**Yn seiliedig ar bris canolig ac nid ar bris y cynnig*

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr

Mae'r Ymddiriedolwr (Corff y Cynrychiolwyr) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (yr Arfer a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn gofyn i'r Ymddiriedolwr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac o'r incwm clir, yr enillion cyfalaf clir a'r newid yn yr asedau clir dros y cyfnod hwn.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau addas a'u cymhwyso gyda chysondeb;
- dilyn dulliau ac egwyddorion y Datganiad o Arfer a Argymhellir i Gronfeydd Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan yr IMA ym Mai 2014 a'u diweddaru yn Rhagfyr 2015;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu perthnasol, ac eithrio unrhyw wahaniaethau a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw'n anaddas cymryd yn ganiataol y bydd y Gronfa'n parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol a fydd yn dangos yn rhesymol gywir ar unrhyw amser sefyllfa ariannol y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac yn galluogi'r Ymddiriedolwr i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Elusennau 2008 a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolwr hefyd yn gyfrifol am warchod asedau'r Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac, o ganlyniad, am gymryd camau rhesymol i rwystro ac i ddatgelu twyll ac afreoleidd-dra.

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Gwybodaeth Weinyddol

Buddsoddi yn y Gronfa

Gellir buddsoddi cymynroddion, arian plwyfol ac ymddiriedolaethau yn y Gronfa trwy gwblhau gweithred ymddiriedolaeth yn penodi Corff y Cynrychiolwyr yn Ymddiriedolwr. Gellir cael copi gan Gyfreithiwr Corff y Cynrychiolwyr, Mrs Lynette Chandler.

Buddsoddir bob chwarter (Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr) ar sail prisiant o'r gronfa ar ddiwedd y chwarter.

Amodau'r rhodd neu'r gymynrodd a fydd yn penderfynu a fuddsoddir yr arian fel arian gwariadwy neu arian anwariadwy, a hynny, yn ei dro, fydd yn penderfynu a delir incwm yn chwarterol ar gais y plwyf.

Incwm

Dosberthir incwm o'r Gronfa i'r ymddiriedolaethau heb gynnwys ffioedd rheolwr y Gronfa a chostau perthnasol eraill. At ei gilydd, gan mai cronfa o fuddsoddiadau cyffredin elusennol ydyw, derbynnir incwm ar fuddsoddiadau heb orfod talu treth incwm.

Bydd y dull o ddosbarthu'r incwm yn dibynnu ar amodau'r ymddiriedolaeth. Os oes incwm ar gael at amcanion elusennol neu at amcanion eglwysig cyffredinol, fe'i telir i gyfrif banc y plwyf bob chwarter, ac anfonir i'r plwyf hysbysiad dosbarthu incwm.

Os oes incwm ar gael at amcanion penodol, fel atgyweirio'r eglwys, fe'i dosberthir pan dderbynnir tystiolaeth o wariant a llythyr oddi wrth y plwyf wedi'i arwyddo gan ddau aelod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig.

Datganiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth

Pan na fydd plwyf yn derbyn incwm bob chwarter na hysbysiad dosbarthu blynyddol, fe gaiff ddatganiad blynyddol gan yr ymddiriedolaeth ar ddiwedd pob blwyddyn yn dangos yr incwm a'r gwariant a phob trafod a fu ar gyfranddaliadau'r ymddiriedolaeth. Bydd y wybodaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer cyfrifon blynyddol y plwyf.

Bydd plwyfi sy'n derbyn incwm chwarterol yn derbyn hysbysiad dosbarthu ar ddiwedd pob blwyddyn yn dangos nifer eu cyfranddaliadau yn yr ymddiriedolaeth, a'u gwerth, a bydd y wybodaeth honno'n ddigonol ar gyfer cyfrifon blynyddol y plwyf.

Tynnu Cyfalaf neu Incwm o'r Gronfa

Yn y lle cyntaf, dibynna tynnu arian cyfalaf allan o ymddiriedolaeth ar amodau'r ymddiriedolaeth. Os nad yw'r amodau'n caniatáu tynnu allan y cyfalaf, ni fydd hynny'n bosibl heb ganiatâd y Comisiwn Elusennau. Os yw amodau'r ymddiriedolaeth yn caniatáu tynnu allan y cyfalaf a'r incwm a gronnwyd, fe fydd, fel rheol, angen cydsyniad yr Ymddiriedolwr. Rhaid anfon tystiolaeth o wariant a llythyr wedi ei arwyddo gan ddau aelod o'r Cyngor Plwyf Eglwysig gyda phob cais i dynnu arian allan. Tynnir allan arian cyfalaf a chyfranddaliadau cronni incwm bob chwarter, ac felly bydd angen rhybudd o dynnu allan ymlaen llaw.

Dylid cyfeirio cwestiynau am fuddsoddi yn y Gronfa neu dynnu arian allan at Mrs Lynette Chandler; rhif ffôn: 029 20348232; e-bost lynchandler@eglwysyngnghymru.org.uk

Cynghorwyr

Cynghorwyr Buddsoddi:
Newton Investment Management
BNY Mellon Financial Centre
160 Queen Victoria Street
Llundain
EC4V 4LA

Archwilwyr Annibynnol:
haysmacintyre
26 Red Lion Square
Llundain
WC1R 4AG

Gweinyddiaeth Gyffredinol:
Louise Davies
Pennaeth Cyllid
39 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9XF

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwr

Rydym ni wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn ôl Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys safon 102 ar adrodd ariannol, y safon adrodd sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Ymarfer Cyfrifyddu Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig).

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r elusen yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 y Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan wrth Ymddiriedolwr yr Elusen y materion hynny sy'n ofynnol inni eu datgan mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid ydym yn derbyn neu'n ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb i neb arall ac eithrio ymddiriedolwr yr elusen, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu am y safbwyntiau rydym ni wedi eu mynegi.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr a'r ymddiriedolwyr

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr ar dudalen 5, mae'r ymddiriedolwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwiliwr o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a wnaed dan adran 154 y Ddeddf honno. Ein cyfrifoldeb yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r cyfryw safonau yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol

Mae disgrifiad o gwmpas archwiliad y datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol sef: www.frc.org.uk/auditscopeukprivate.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r elusen fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2016 o ran y newidiadau clir yn y cronfeydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig
- wedi eu paratoi'n unol â gofynion Deddf Elusennau 2011

Materion eraill y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae'n ofynnol yn Neddf Elusennau 2011 i ni adrodd i chi os tybiwn:

- fod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwr yn anghyson mewn unrhyw fodd perthnasol â'r adroddiadau ariannol;
- fod y cofnodion cyfrifyddu a gadwyd yn annigonol;
- fod y datganiadau ariannol yn anghyson â'r cofnodion a'r derbyniadau cyfrifo;
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol inni eu cael i gyflawni'r archwiliad.

haysmacintyre,
26 Red Lion Square, Llundain WC1R 4AG

6 Mehefin 2017

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwiliwr o ran adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Datganiad o Gyfanswm y Derbyniadau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016

		2016	2015
	Nodiadau	£	£
Incwm			
Enillion Cyfalaf Clir / (Colledion)	2	**5,937,747**	(376,090)
Refeniw	3	**1,403,392**	1,415,637
Gwariant	4	**(175,298)**	(160,358)
Cyfanswm y Derbyniadau cyn dosbarthu		**7,165,841**	879,189
Dosbarthiad i Gyfranddalwyr	5	**(1,228,094)**	(1,255,279)
Newid yn yr asedau clir i'w priodoli i Gyfranddalwyr o Weithgareddau Buddsoddi		**5,937,747**	(376,090)

Datganiad o'r Newid mewn Asedau Clir i'w Priodoli i Gyfranddalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2016

	2016	2015
	£	£
Asedau clir cychwynnol i'w priodoli i gyfranddalwyr	**43,653,812**	44,029,902
Newid mewn asedau clir i'w briodoli i Gyfranddalwyr o Weithgareddau Buddsoddi	**5,937,747**	(376,090)
Asedau clir terfynol i'w priodoli i Gyfranddalwyr	**49,591,559**	43,653,812

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Mantolen
Ar 31 Rhagfyr 2016

		2016	2015
	Nodiadau	£	£
Buddsoddiadau:			
Gwarannau'r gyfnewidfa Stoc	6	**45,709,674**	41,392,662
Adneuon ar y Farchnad Arian	7	**4,039,754**	2,389,431
		49,749,428	43,782,093
Asedau cyfredol :			
Dyledwyr	8	**183,204**	205,736
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	9	**(341,073)**	(334,017)
Dyledion Cyfredol Clir		**(157,869)**	(128,281)
Asedau clir		**49,591,559**	43,653,812
Cynrychiolir gan :			
Asedau clir i'w priodoli i Gyfranddalwyr		**49,591,559**	43,653,812

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 8 i 14 gan Gorff y Cynrychiolwyr ar 6 Mehefin 2017.

James Turner, Cadeirydd

Paul Marshall OBE, Is Gadeirydd

Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

1. Polisïau Cyfrifyddu

Paratowyd datganiadau ariannol Cronfa Buddsoddiadau Cyffredin yr Eglwys yng Nghymru ar y sail bod y gronfa'n parhau i weithredu yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" ac a weithredir drwy'r gyfraith (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredin yn y Deyrnas Unedig). Rhoddir isod grynodeb o'r prif bolisïau cyfrifyddu ac fe'u cymhwyswyd yn gyson.

(a) **Sail y paratoi**
Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â safon cost hanesyddol wedi'i addasu gan yr allbrisio blynyddol ar asedau buddsoddi ac yn unol â'r datganiad o Arfer a Argymhellir at Gronfeydd Awdurdodedig a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Rheoli Buddsoddiadau ym mis Mai 2014 (IMA SORP 2014) fel y'i diwygiwyd / diweddarwyd yn Rhagfyr 2015.

(b) **Cydnabod Incwm**
Cronnwyd yn llawn y llog ar fenthyciadau tymor byr ac adneuon. Credydwyd llogau a difidendau ar warantau'r gyfnewidfa stoc ar ddyddiad eu derbyn.

(c) **Gwariant**
Cronnwyd pob gwariant yn llawn.

(d) **Buddsoddiadau**
Datgenir gwarantau'r gyfnewidfa stoc ar brisiau cynnig y farchnad ar 31 Rhagfyr 2016. Trosir gwarantau arian tramor i sterling ar y raddfa gyfnewid ar ddyddiad y fantolen.

(e) **Dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau cyfrifyddu**
Nid yw rheolwyr wedi gwneud unrhyw ddyfarniadau cyfrifyddu yn y gyfres hon o ddatganiadau ariannol na'r cyfnod blaenorol

2. Enillion Cyfalaf Clir / (Colledion)	2016	2015
	£	£
Enillion a wireddwyd	**1,890,198**	1,244,050
Enillion nas gwireddwyd / (colledion)	**3,751,367**	(1,917,342)
Cyfraniadau clir	**296,182**	297,202
	5,937,747	(376,090)

3. Refeniw	2016	2015
	£	£
Gwarannau'r gyfnewidfa stoc	**1,402,377**	1,414,649
Adneuon ar y Farchnad Arian	**1,015**	988
	1,403,392	1,415,637

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

4. Treuliau	2016	2015
	£	£
Ffi Rheolwr y Gronfa	**172,804**	155,706
Costau cynnal meddalwedd	**2,124**	3,205
Ffioedd mesur perfformiad	**370**	1,447
	175,298	160,358

5. Dosbarthiad i Gyfranddalwyr	2016	2015
	£	£
Talwyd	**933,034**	960,886
Cynigwyd	**295,060**	294,393
	1,228,094	1,255,279

6. Gwarannau'r Gyfnewidfa Stoc	2016	2015
	£	£
Gwerth y farchnad ar 1 Ionawr	**41,392,662**	42,168,095
Ychwanegwyd	**10,970,522**	8,637,727
Gwaredwyd	**(10,404,877)**	(7,495,818)
Cynnydd clir / (lleihad) ar adbrisio	**3,751,367**	(1,917,342)
Gwerth y Farchnad ar 31 Rhagfyr	**45,709,674**	41,392,662
Cost hanesyddol ar 31 Rhagfyr	**36,765,599**	36,199,954
Enillion nas gwireddwyd a gyfrifwyd ar sail hanesyddol	**8,944,075**	5,192,708
Rhestrwyd yn y DU	**24,199,537**	22,907,197
Rhestrwyd dramor	**21,510,137**	18,485,465
	45,709,674	41,392,662

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

7. Adneuon y Farchnad Arian	2016	2015
	£	£
Cyfalaf Buddsoddi a ddelir mewn arian	**3,881,884**	2,261,150
Adneuon ar y Farchnad Arian	**157,870**	128,281
	4,039,754	2,389,431

8. Dyledwyr	2016	2015
	£	£
Symiau'n ddyledus gan Reolwr y Gronfa	**183,204**	205,736
	183,204	205,736

9. Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn	2016	2015
	£	£
Symiau'n ddyledus i Gyfranddalwyr	**295,060**	294,393
Credydwyr eraill	**46,013**	39,624
	341,073	334,017

10. Offerynnau Ariannol

Mae offerynnau ariannol y Gronfa'n cynnwys gwarannau a buddsoddiadau eraill, mantolenni ariannol a dyledwyr a chredydwyr sy'n codi'n uniongyrchol o'i gweithrediadau.

Y prif risgiau mae'r Gronfa'n eu hwynebu yn ei phortffolio o weithgareddau rheoli yw:

- Risg arian cyfred tramor
- Risg pris y farchnad

Mae'r polisïau ar gyfer rheoli'r risgiau hyn wedi'u crynhoi isod ac wedi'u cymhwyso trwy gydol y flwyddyn.

a) Risg arian cyfred tramor

Gall cyfran o asedau ariannol y Gronfa fod mewn arian cyfred penodedig ac eithrio sterling gyda'r canlyniad fod Datganiad Cyfanswm y Derbyniadau a Datganiad y Newid mewn Asedau Clir a briodolir i Gyfranddalwyr yn gallu cael eu heffeithio gan symudiadau mewn arian cyfred.

Rheoli Risg

Mae Rheolwr y Gronfa yn monitro'r graddau mae'r Gronfa yn agored i arian cyfred tramor yn ddyddiol ac yn mesur y risg i'r Gronfa o fod yn agored i arian cyfred tramor.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Sensitifrwydd arian cyfred tramor
Mae'r tabl canlynol yn dangos sensitifrwydd yr elw net i Sterling yn erbyn Doler UDA a'r Ewro, ac yn rhagdybio cynnydd neu leihad o 15% (2015: 10%) mewn cyfraddau cyfnewid. Mae Doler UDA a'r Ewro yn cyfateb i 64% o elfen dramor y Gronfa.

Pennwyd y ganran hon ar sail anwadalwch marchnad y cyfraddau cyfnewid dros y deuddeg mis diwethaf. Seilir y dadansoddiad sensitifrwydd ar offerynnau ariannol arian cyfred tramor y Gronfa a ddaliwyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Pe bai Sterling wedi gwanhau dyma fyddai'r effaith wedi bod ar werth y buddsoddiadau:

	2016 £	2015 £
Doler UDA	**1,554,864**	913,375
Yr Ewro	**441,856**	240,719
	1,996,720	1,154,094

Pe bai sterling wedi cryfhau dyma fyddai'r effaith wedi bod ar werth y buddsoddiadau:

	2016 £	2015 £
Doler UDA	**(1,554,864)**	(913,375)
Yr Ewro	**(441,856)**	(240,719)
	(1,996,720)	(1,154,094)

b) Risg Pris y Farchnad

Gall gwerth teg buddsoddiadau a ddelir gan y Gronfa amrywio yn sgil newidiadau i brisiau'r farchnad. Mae Rheolwr y Gronfa'n asesu'r risg o fod yn agored i'r farchnad wrth wneud pob penderfyniad ar fuddsoddi, ac yn monitro lefel gyffredinol risg y farchnad ar y portffolio buddsoddi yn barhaus .

Rheoli'r Risg
Mae'r pwyllgor Buddsoddi yn adolygu'r portffolio bob chwarter ac yn monitro cyfanswm yr elw ar y portffolio yn erbyn y meincnod.

Sensitifrwydd risg yn sgil prisiau eraill
Mae'r canlynol yn dangos sensitifrwydd yr elw clir am y flwyddyn a'r ecwiti i gynnydd neu leihad o 20% (2015: 20%) yng ngwerth teg ecwitïau'r Gronfa. Ystyrir y lefel hon o newid yn rhesymol seiliedig o bosibl ar arsylwadau o gyflwr y farchnad yn ystod y flwyddyn. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn seiliedig ar ecwitïau'r Gronfa ar ddyddiad y fantolen, gyda'r holl newidynnau eraill yn cael eu dal yn gyson.

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

	2016		2015	
	Cynnydd mewn gwerth teg £	Lleihad mewn gwerth teg £	Cynnydd mewn gwerth teg £	Lleihad mewn gwerth teg £
Effaith ar dderbyniadau cyfalaf	**9,957,009**	**(9,957,009)**	8,756,417	(8,756,417)

11. Trafodion Parti Perthynol

Mae Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn Ymddiriedolwr o'r Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin ac yn talu costau gweinyddol y Gronfa Buddsoddiadau Cyffredin gan gynnwys y ffi archwilio.